

## Y Pwyllgor Cyllid

### Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17

#### WGDB\_16-17 05 Dyfodol i'r Iaith

1. **Cynnydd cyllid Llywodraeth Cymru.** Mae Llywodraeth Cymru (ac eraill) yn sôn yn aml am y toriadau mewn cyllid a gaiff y Llywodraeth o Lundain.

Yn ôl dogfen *Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2016-17, Cymru Decach, Cymru Well – Buddsoddi at y Dyfodol*, dyw hyn ddim yn wir. Bydd cynnydd o 4% yn y gyllideb rhwng 2015-6 a 2019-20.

- 2.4 Pennwyd Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod o 2016-17 i 2019-20 gan Lywodraeth y DU yn ei Hadolygiad Gwariant, a ddaeth i ben ar 25 Tachwedd 2015. Nodir setliad Llywodraeth Cymru isod yn Nhabl 1. At ei gilydd, mae Cyllideb Cymru'n cynyddu mewn termau arian parod ym mhob blwyddyn o'r setliad. Erbyn 2019-20, bydd tua 4 y cant yn uwch nag yn ystod y flwyddyn hon, gyda chynnydd o ychydig yn llai na £400m mewn referniw a £200m mewn cyfalaf.

Tabl 1 Setliad Arian Parod Llywodraeth Cymru, £Biliynau

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
<b>Referniw</b>	12.92	13.03	13.15	13.21	13.29
<b>Cyfalaf</b>	1.46	1.53	1.52	1.57	1.65
<b>Cyfanswm</b>	14.38	14.56	14.67	14.77	14.93

- 2.5 Fodd bynnag, fel y dangosir yn Nhabl 2, yn sgil chwyddiant, bydd cyllideb Llywodraeth Cymru yn lleihau tua 3.6 y cant mewn termau real dros y cyfnod hwn.

14

Pe bai cyllid i sefydliadau'n cael ei gadw i'r un swm ag eleni, byddai colled bosibl o ran chwyddiant. Mae'r Llywodraeth yn honni bod chwyddiant yn 3.6%. Yn ôl yr *Office for National Statistics*, mae chwyddiant yn ystod 2015 wedi amrywio o bwynt uchaf o 0.5% ym mis Ionawr, i -0.1% yn ystod tri mis, ac erbyn diwedd y flwyddyn mae'n 0.1%. Mae *Trading Economics* yn rhagweld bod chwyddiant yn codi i 2.1% erbyn 2020.

Mae'r ffigurau hyn yn rhoi gwedd wahanol i doriadau'r Llywodraeth. **Wrth dorri arian i feysydd sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yr hyn sydd wedi digwydd yw bod y Llywodraeth yn rhoi blaenoriaethau i feysydd eraill, ar draul y Gymraeg. Dyw torri arian y Gymraeg ddim yn rheidrwydd gan fod cyllid y Llywodraeth yn cynyddu. Mae'n dilyn felly fod y Gymraeg yn llai o flaenoriaeth i'r Llywodraeth nag y bu.**

2. **Toriadau a chwyddiant.** Mae'n wir, fodd bynnag, y bydd unrhyw doriadau mewn cyllid i'r Gymraeg yn cael eu cynyddu yn sgil chwyddiant. Os oes cwtogi o 6.9% yn 2016-17, bydd hyn yn cynyddu i ryw 10% erbyn 2019-2010, neu i ragor na hynny os bydd chwyddiant o 3.6% fel y rhagwelder gan y Llywodraeth.
3. **Polisi iaith y Llywodraeth a'r toriadau.** Mae gan Lywodraeth Cymru sawl dogfen bolisi sy'n nodi bod y Llywodraeth am weld y Gymraeg yn ffynnu. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn nod cyffredinol o weld gwlad ddwyieithog. Mae *Iaith Fyw: iaith byw, Strategaeth y Gymraeg 2012-2017* yn nodi mai nod 'Llywodraeth Cymru yw manteisio ar y consensws sy'n bodoli a'i datblygu, gan dderbyn mwy o gyfrifoldeb am hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r toriadau presennol yn torri ar draws y polisi hwn.

4. **Toriadau i'r Gymraeg.** Cafwyd toriadau sylweddol i sefydliadau sy'n gwasanaethu'r Gymraeg yn ystod 2015 ac mae rhagor ar y gweill yn awr. Mae'r meysydd yma wedi eu torri neu ar fin cael eu torri:

- **S4C**
- **Cymraeg i Oedolion**
- **Llyfrau Cymraeg**
- **Cwmnïau perfformio**

Mae'r toriadau hyn, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn datod llawer ar y we sy'n cadw'r Gymraeg yn iaith lewyrchus a byw.

Mae'r toriadau i gyhoeddi yn llawer mwy na'r toriadau i'r celfyddydau'n gyffredinol. Mae'r cwtogi o 10% yn mynd i gael effaith ar y gadwyn economaidd sy'n cynnwys siopau, llyfrgelloedd, dylunwyr, awduron a gweisg, gan effeithio ar swyddi parhaol a swyddi llawrydd. Mae hyn oll yn niweidiol i rwydwaith economaidd y byd Cymraeg.

Mae'r un peth yn wir am y toriadau i S4C. Bydd cwmnïau yn y fro Gymraeg yn debygol o orfod diswyddo gweithwyr yn sgil lleihad yr arian i S4C.

5. **Diflaniad neu gwtogi darpariaethau i'r Gymraeg.** Yr un pryd, gwelwyd sawl darpariaeth Gymraeg yn cael eu torri, neu gwelwyd nad yw'r Gymraeg wedi cael lle teilwng mewn darpariaethau a ddylai fod o leiaf yn ddwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cychwyn Cadarn**
- **Rhaglenni hyrwyddo'r Gymraeg ymysg rhieni**
- **Rhaglen hyrwyddo addysg Gymraeg**
- **Arafwch twf addysg Gymraeg, y mae ei darpariaeth yn dal ymhell y tu ôl i'r galw**

O gymryd y diffygion hyn a'r toriadau ynghyd, mae gwendidau mawr yn y modd y mae'r Llywodraeth yn trin y Gymraeg.

6. **Yr angen am raglen gynhwysfawr.** Ar adeg a welir gan genedlaethau'r dyfodol fel un a fydd wedi sicrhau neu esgeuluso dyfodol y Gymraeg a'i chymunedau, mae'n anodd deall sut mae'r Llywodraeth yn fodlon torri'r cyllid sydd ar gael i ddatblygu gweithgareddau a diwylliant Cymraeg, i hybu siaradwyr newydd, ac i'w datblygu'n iaith gymunedol. Yn awr y mae angen rhoi polisi cadarnhaol y Llywodraeth ar waith, a fydd dim modd gwneud hyn heb gefnogaeth ariannol deilwng.

Mae profiad gwahanol wledydd, sydd â sefyllfa ieithyddol debyg i'r Gymraeg, wedi nodi bod angen buddsoddi sylweddol yn y meysydd canlynol:

- **Addysg yn yr iaith**
- **Dysgu'r iaith i oedolion**
- **Cefnogi'r Gymraeg yn y cartref**
- **Hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned**
- **Hyrwyddo diwylliant poblogaidd ymysg ieuenctid**
- **Cefnogi cyhoeddi, llenyddiaeth a'r celfyddydau yn yr iaith**
- **Cefnogi darlledu yn yr iaith**

- **Hyrwyddo'r iaith ym myd gweinyddiaeth a busnes**

7. **Sicrhau cyllid digonol.** Mae gan y Llywodraeth bolisiâu cyffredinol sy'n gefnogol i'r Gymraeg. Y cam angenrheidiol yn awr yw bod y Llywodraeth yn nodi pwyntiau gweithredu ar draws y meysydd a nodwyd uchod a fydd arwain at wireddu'r polisiâu hyn. Dylai'r cyllid a roddir i'r Gymraeg fod yn unol â'r hyn sy'n angenrheidiol i gyrraedd y nodau.

Mae hyn yn fater o gynllunio tymor canolig a hir. Yn sgil hyn mae angen i'r cyllid gael ei bennu mewn modd a fydd yn caniatáu cyrraedd y nodau.

Rydym yn galw felly ar y Llywodraeth i ddileu'r toriadau i'r Gymraeg fel cam cyntaf i gyflawni amcanion ei gwahanol strategaethau a'i dyletswyddau cyfreithiol. Yn ail gam mae angen adolygiad cyffredinol o'r gwariant ar y Gymraeg gyda gweledigaeth ar sut mae sicrhau bod y Gymraeg yn cael cyfle i gryfhau ac ehangu.